OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2997 (Cy.262)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*17 Tachwedd 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*19 Tachwedd 2008*
Yn dod i rym - -	*11 Rhagfyr 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 143(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraff 2(8) o Atodlen 6 iddi, ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 11 Rhagfyr 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) 1989

2.—(1) Diwygir Rheoliad 2 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) 1989(**3**) (Prisio ar sail y contractiwr) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1C) hepgorer y geiriau "or after".

(3) Ar ôl paragraff (1C) mewnosoder—

"(1D) Paragraph (2D) of this regulation applies in relation to a hereditament, shown in a non-domestic rating list compiled on or after 1 April 2010, the rateable value of which is being ascertained using the contractor's basis of valuation."

(4) Ar ôl paragraff (2C) mewnosoder—

(**1**) 1988 p. 41.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 1989 Rhif 2303 (fel y'i diwygiwyd).